LLWYBRAU CENEDLAETHOL
NATIONAL TRAILS

Llwybr Arfordir Cymru
Wales Coast Path



# PECYN CYMORTH Y DIWYDIANT TEITHIO

Canllaw ymarferol i'r profiadau cerdded gorau yng Nghymru

# Cynnwys


Hafan ... 3

Ynglŷn â'r Pecyn Cymorth ... 3

Y Llwybrau Cenedlaethol yng Nghymru a Llwybr Arfordir Cymru: ffeithiau a ffigurau ... 4
Map Cymru ... 5
Oeddech chi'n gwybod? ... 6

Cerdded Llwybr Arfordir Cymru a'r Llwybrau Cenedlaethol ... 10
Cyffredinol ... 10
Teithiau cerdded ... 11
Llwybr Clawdd Offa ... 11
Llwybr Glyndŵr ... 13
Llwybr Arfordir Sir Benfro ... 15
Llwybr Arfordir Cymru ... 17

Ble i Aros ... 19

Teithio o Le i Le ... 20

Parcio Bysiau ... 21

Cyfleusterau porthladdoedd mordeithio ... 21
Caerdydd ... 22
Abergwaun ... 22
Aberdaugleddau ... 22
Casnewydd ... 22
Abertawe ... 22

Gwasanaethau anfon bagiau ymlaen ... 22

Pethau i'w gwneud ... 23
Gwyliau cerdded ... 23
Calendrau digwyddiadau ... 23
Cronfeydd data digwyddiadau ac atyniadau ... 24
Pethau i'w gwneud yn ôl tref ar hyd pob llwybr ... 25
Croesi traeth yw byw ... 29

Ble i siopa ... 30
Llwybr Clawdd Offa ... 30
Llwybr Glyndŵr ... 31
Llwybr Arfordir Cymru ... 31
Llwybr Arfordir Sir Benfro ... 31

Ble i fwyta ac yfed ... 32
Llwybr Clawdd Offa ... 32
Llwybr Glyndŵr ... 32
Llwybr Arfordir Cymru ... 33
Llwybr Arfordir Sir Benfro ... 34

Dolenni defnyddiol ... 35


**Llun y clawr:** Cerddwyr ar Lwybr yr Arfordir uwchben Aber Afon Dyfi ger Aberdyfi, Eryri


Traeth Niwbwrch

# Ynglŷn â'r Pecyn Cymorth

**Croeso i'r pecyn cymorth hwn ar gyfer y diwydiant teithio, sy'n cynnwys y tri Llwybr Cenedlaethol yng Nghymru – Llwybr Clawdd Offa, Llwybr Glyndŵr a Llwybr Arfordir Sir Benfro - ynghyd â Llwybr Arfordir Cymru. Fe'i cynlluniwyd i fod yn hawdd i'w ddefnyddio, gan roi'r gallu i chi gael gafael ar ystod eang o ddeunydd a gwybodaeth wrth gynllunio teithiau gwyliau.**

Mae'r llwybrau hyn yn darparu cyfleoedd di-ri i drefnu amrywiaeth eang o wyliau ac ymweliadau, gan gynnwys creu gwyliau cerdded pellter hir a gwyliau i gyrchfannau arbennig yn rhai o drefi a phentrefi mwyaf deniadol Cymru, boed hynny fel rhan o wyliau lle mae'r cyfan wedi'i drefnu neu deithio annibynnol.

I'ch helpu i gynllunio, mae'r pecyn cymorth hwn yn rhoi manylion am ble i aros, ac awgrymiadau ar deithiau cerdded gan y rhai sy'n gofalu am y llwybrau, cyfleusterau parcio bysiau, atyniadau, pethau i'w gwneud, gwybodaeth am fwyd a diod Cymru a ble i fwyta allan, a llawer mwy.

Efallai fod Cymru, gyda'i hiaith unigryw ei hun, yn wlad fach, ond mae'r dewis o bethau i'w gwneud yn anferth. Er mai Llwybr yr Arfordir a'r Llwybrau Cenedlaethol yw'r prif atyniadau i gerddwyr, mae'r ardaloedd cyfagos yn cynnig llawer mwy i ymwelwyr na cherdded yn unig – popeth o draethau baner las i gefn gwlad prydferth, trefi marchnad prysur a chyfoeth o ddiwylliant a hanes.

Bydd y Pecyn Cymorth hwn yn eich helpu i lunio amrywiaeth o syniadau a chynlluniau ar gyfer gwyliau, marchnata a hyrwyddo. Fe'i cynlluniwyd i arbed amser i chi wrth gynllunio teithiau a gwyliau drwy ddod â chyfoeth o wybodaeth ddefnyddiol at ei gilydd, a'r cyfan mewn un ddogfen hygyrch. Mae hyperddolenni yn ei gwneud yn hawdd i chi gael mynediad at ystod eang o wefannau ac adnoddau ac os nad ydych eisoes yn cynnig gwyliau yng Nghymru, ar y tudalennau hyn fe welwch ddolenni i ddarparwyr presennol y gallwch weithio gyda nhw.

# Y Llwybrau Cenedlaethol yng Nghymru a Llwybr Arfordir Cymru: ffeithiau a ffigurau

Mae'r tri Llwybr Cenedlaethol yng Nghymru ynghyd â Llwybr Arfordir Cymru yn cynnig amrywiaeth eang o deithiau cerdded i gerddwyr o bob gallu. O deithiau cerdded ar hyd clogwyni a thraethau diarffordd i grwydro trefi a phentrefi marchnad, mae'r llwybrau'n rhoi dewis heb ei ail i ymwelwyr.

Yn rhedeg ar hyd y ffin rhwng Cymru a Lloegr, mae Llwybr Clawdd Offa yn Llwybr Cenedlaethol prydferth sy'n 177 milltir o hyd. Mae'n teithio o'r de i'r gogledd ac yn dechrau ger Aber Afon Hafren yn Sedbury, ger Cas-gwent, a gorffen ym Mhrestatyn ar arfordir y gogledd. Mae'r daith gerdded yn cymryd tua 12 diwrnod ar gyfartaledd i'w chwblhau. Mae Lonely Planet yn enwi Llwybr Clawdd Offa ymhlith teithiau cerdded gorau'r byd.

Yn yr wythfed ganrif, cododd y Brenin Offa o Fersia wrthglawdd llydan i wahanu Cymru a Lloegr, sef Clawdd Offa. Yn llawer diweddarach, ym 1971, gosodwyd y llwybr ochr yn ochr â'r gwrthglawdd ac mae'n mynd drwy wyth sir, gan gynnig amrywiaeth o drefi marchnad tlws ar hyd y ffordd, gyda dewis o lety.

Bydd Llwybr Glyndŵr yn mynd â chi i fannau mwy diarffordd. Mae'r llwybr naw diwrnod yn ymweld â llawer o'r safleoedd sy'n gysylltiedig â gorffennol hanesyddol Cymru – trefi fel y Trallwng, Trefyclo a Machynlleth. Gallwch fwynhau'r llwybr fel cyfres o deithiau cerdded undydd. Mae tua 60 y cant o Lwybr Glyndŵr yn hygyrch i feicwyr a marchogion.

Ar y llwybr llawn, byddwch yn cerdded drwy dir fferm tonnog, rhostir agored a bryniau wedi'u gorchuddio â grug, ac yn darganfod golygfeydd syfrdanol o fynyddoedd Cadair Idris a Phumlumon. Gallwch orffwys dros nos mewn trefi bach fel Llanidloes neu bentrefi hyfryd fel Meifod, ond gallwch deithio am filltiroedd a gweld neb oni bai am ambell i ffermwr bob hyn a hyn. Yr hyn y byddwch chi'n siŵr o'u gweld, fodd bynnag, yw barcutiaid coch, hebogiaid tramor a bwncathod.

Mae Llwybr Arfordir Sir Benfro yn 186 milltir o hyd, yn pasio 58 o draethau ac 14 harbwr, ac yn mynd â chi heibio pob clogwyn a childraeth rhwng Llandudoch ac Amroth. Mae bron yn gyfan gwbl o fewn Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro ac mae'n cynnig golygfeydd o glogwyni geirwon, cildraethau cysgodol, traethau llydan ac aberoedd troellog.

Mae Cymru'n un o'r ychydig wledydd yn y byd sydd â llwybr arfordirol di-dor sy'n ymestyn o un pen y wlad i'r llall. Mae Llwybr Arfordir Cymru yn dechrau yn Sir y Fflint yn y gogledd ac yn rhedeg am 870 milltir i Gas-gwent yn y de. Ar y ffordd mae'n mynd heibio i draethau Baner Las a threfi marchnad, yn creu cylch am Ynys Môn, yn rhedeg trwy 11 o warchodfeydd natur cenedlaethol, ac yn dilyn arfordir Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro a Phenrhyn Gŵyr. Yn y brifddinas, Caerdydd, mae'r llwybr yn rhedeg ar hyd Morglawdd Bae Caerdydd, gan gynnig golygfeydd ysblennydd o'r ddinas a'i hamlinell yn yr awyr.

Lansiwyd Llwybr Arfordir Cymru yn swyddogol ar 5 Mai 2012. Rhoddodd Lonely Planet arfordir Cymru yn gyntaf yn ei 10 rhanbarth orau ar gyfer 2012 ac yn yr un flwyddyn enwodd cylchgrawn National Geographic Sir Benfro fel ail gyrchfan arfordirol orau'r byd.

Mae'r llwybr cyfan yn hygyrch i gerddwyr, gyda rhai rhannau yn addas ar gyfer beicwyr, teuluoedd â chadeiriau gwthio, pobl â symudedd cyfyngedig, a marchogion.

O deithiau cerdded ar hyd clogwyni a thraethau diarffordd i ddarganfod gwaith ailddatblygu cyffrous Bae Caerdydd - mae Llwybr Arfordir Cymru yn cynnig amrywiaeth eang o olygfeydd hyfryd i ymwelwyr ar hyd ei 870 o filltiroedd.

Er mwyn mwynhau Llwybr yr Arfordir a'r Llwybrau Cenedlaethol nid oes angen i chi hyd yn oed fod yn gerddwr brwd gan fod darnau byr hawdd ar gyfer taith gerdded gyflym a hawdd yn ogystal â heiciau hirach a mwy heriol.




- Llwybr Clawdd Offa
- Heneb Clawdd Offa
- Llwybr Glyndŵr
- Llwybr Arfordir Sir Benfro
- Llwybr Arfordir Cymru
- Cymru Ffin Cymru
- Lloegr Parciau
- Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol

Yn cynnwys gwybodaeth Cyfoeth Naturiol Cymru © Cyfoeth Naturiol Cymru a Hawl Cronfa Ddata.
Yn cynnwys data Arolwg Ordnans. Rhif Trwydded Arolwg Ordnans 100019741.
Hawlfraint y Goron a Hawl Cronfa Ddata 2021.




Moel Famau, Llwybr Clawdd Offa

# OEDDECH CHI'N GWYBOD?

## Llwybr Clawdd Offa

- Mae Llwybr Clawdd Offa yn llwybr cerdded 177 milltir (285 Km) o hyd. Mae wedi'i enwi ar ôl, ac yn aml yn dilyn, y clawdd trawiadol y gorchmynnodd y Brenin Offa ei adeiladu yn yr wythfed ganrif. Dyma'r Heneb Gofrestredig hiraf ym Mhrydain.

- Mae Llwybr Clawdd Offa yn mynd drwy wyth sir wahanol ac yn croesi'r ffin rhwng Cymru a Lloegr dros 20 gwaith.

- Mae'n cysylltu tair Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol a Pharc Cenedlaethol – Dyffryn Gwy, Bryniau Swydd Amwythig a Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy, yn ogystal â Pharc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog.

- Mae'r Llwybr yn mynd drwy neu'n mynd yn agos at lawer o drefi hanesyddol, gan gynnwys Cas-gwent, Trefynwy, y Gelli Gandryll, Kington, Llanandras, Trefyclo, Bishop's Castle, Trefaldwyn, y Trallwng, Croesoswallt, Llangollen, Yr Wyddgrug, Rhuthun, Dinbych, a Phrestatyn.

- Mae'r Gelli Gandryll yn adnabyddus ledled y byd fel "tref y llyfrau". Mae'r dref farchnad hardd hon yn eistedd ar lan ddwyreiniol Afon Gwy ychydig o fewn ffin Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog ac mae'n gartref i Ŵyl y Gelli, sy'n ŵyl ryngwladol flynyddol.

- Ystyrir Castell Cas-gwent y castell carreg hynaf sydd wedi goroesi ym Mhrydain ac mae ganddo'r drysau hynaf o blith pob castell yn Ewrop – tua 800 mlwydd oed. Tan 1962 roedd y drysau hyn yn hongian yn y prif borth, ond maent bellach wedi'u cadw'n ddiogel yn yr arddangosfa ar y safle.

- Mae Pont Mynwy yn croesi Afon Mynwy yn nhref farchnad Trefynwy yn agos at y ffin, a dyma fan geni Harri V. Dyma'r unig bont afon gaerog ganoloesol sy'n dal i fodoli ym Mhrydain.

- Dyfrbont Pontcysyllte yw'r ddyfrbont hiraf ac uchaf ym Mhrydain ac fe'i gelwir yn aml 'y nant yn y nen.' Mae'n Heneb Gofrestredig, yn Safle Treftadaeth y Byd, ac yn strwythur Rhestredig Gradd I.

- Mae'r Castell Gwyn, wrth ochr Llwybr Clawdd Offa, yn un o grŵp o dri chastell, sydd wedi'u cysylltu gan Lwybr y Tri Chastell, a'r lleill yw Ynysgynwraidd a'r Grysmwnt. Roedd y tri o dan reolaeth un arglwydd, Hubert de Burgh, yn gynnar yn y drydedd ganrif ar ddeg.

- Mae Llwybr Clawdd Offa yn rhedeg yn agos at Briordy Llanddewi Nant Honddu, priordy Awstinaidd sydd bron yn adfail llwyr wrth droed y Mynydd Du ar Grib Hatterrall uwchben Cwm Llanddewi Nant Honddu ac yn nodi'r ffin rhwng Cymru a Lloegr.




Llyn Efyrnwy, Llwybr Glyndŵr

# OEDDECH CHI'N GWYBOD?

## Llwybr Glyndŵr

- Mae Llwybr Glyndŵr yn 135 milltir o hyd (217km) ac wedi'i enwi ar ôl Owain Glyndŵr, Tywysog Cymru ac arweinydd cenedlaetholgar o'r canol oesoedd a drefnodd wrthryfel yn erbyn brenin Lloegr, Harri IV ym 1400.

- Mae'n werth gwneud yr ymdrech i wyro oddi ar Lwybr Glyndŵr hyd at y pwynt triongli ar ben Foel Fadian (1530tr/510m) lle ceir golygfeydd ar hyd dyffryn godidog Afon Dulas i Fachynlleth a'r môr ar ddiwrnod clir.

- Mae Llwybr Glyndŵr yn mynd â chi i rai o'r nodweddion tirwedd gorau yng Nghymru gan gynnwys bryniau tawel Sir Faesyfed, glannau Cronfa Ddŵr Clywedog a chadwyn mynyddoedd Pumlumon sydd dan garped o rug.

- Mae'r llwybr yn mynd heibio i Lyn Clywedog - cronfa ddŵr a ffurfiwyd drwy adeiladu Argae Clywedog. Mae gan y llyn arwynebedd o 615 erw (230 o gaeau pêl-droed), mae ganddo ddyfnder o 216 ar ei ddyfnder uchaf ac mae'n ymestyn i bellter o ryw chwe milltir i gyd. Uwchben yr argae mae golygfan sy'n cynnig golygfa banoramig o'r wlad o'ch cwmpas.

- Yn Llyn Efyrnwy gallwch weld y gwybedog brith a'r tingoch, bronwen y dŵr a'r wyach fawr gopog. Cadwch lygad craff yn agored ac efallai y gwelwch hebog tramor yn gwibio yn yr awyr.

- Adeiladwyd Canolfan Owain Glyndŵr ar safle'r senedd enwog a gynhaliwyd ym 1404 lle coronwyd Owain yn Dywysog Cymru. Rhoddwyd yr adeilad rhestredig Gradd I hwn i dref Machynlleth gan yr Arglwydd Davies o Landinam ym mis Chwefror 1912.

- Gwyrwch oddi ar y llwybr am un filltir i weld strwythur canoloesol Castell Powys gyda'i erddi enwog, arobryn. Wedi'u creu dan ddylanwad arddulliau Eidalaidd a Ffrengig, maen nhw'n gartref i amrywiaeth o blanhigion prin.

- Ym mis Gorffennaf a mis Awst, gwnewch ymdrech arbennig i ymweld â Gwarchodfa Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt Glaslyn pan fydd yn troi'n borffor gyda'r grug a chadwch lygad am blanhigyn nodweddiadol y llyn, gwair merllyn, sy'n aml yn ymddangos ar lan y llyn ar ôl tywydd gwael.

- Yn uchel uwchben Dylife mae'r Llwybr yn mynd ar hyd hen Ffordd Rufeinig ac olion caer Rufeinig Penycrocben.




Traeth Porth Mawr, Ynys Dewi a Charn Llidi

# OEDDECH CHI'N GWYBOD?

## Llwybr Arfordir Sir Benfro

- Wedi'i agor ym 1970, Llwybr Arfordir Sir Benfro oedd y Llwybr Cenedlaethol cyntaf yng Nghymru.
- Mae'n rhedeg am 186 milltir (299 km) o Llandudoch i Amroth
- Mae'n pasio 58 o draethau ac 14 harbwr
- Mae gwasanaeth bws arfordirol Sir Benfro yn gwasanaethu'r llwybr cyfan
- Mae cyfanswm yr esgyniad a'r disgyniad dros hyd cyfan y llwybr tua 35,000 troedfedd - mae hynny mor uchel ag Everest!
- Mae Llwybr Arfordir Sir Benfro yn rhan o Lwybr Arfordir Cymru sy'n ymestyn 870 milltir o amgylch Cymru.
- Yng Nghastell Henllys, Crymych, gallwch gamu'n ôl mewn amser. Mae'n fryngaer unigryw o'r Oes Haearn wedi'i hail-greu gyda thai crwn replica arbennig o'r Oes Haearn, wedi'u hadeiladu ar ben olion datgloddedig bryngaer bresennol, sy'n dyddio'n ôl 2,400 o flynyddoedd.
- Ychydig i mewn i'r tir yng Nghastell Caeriw gallwch weld croes Geltaidd drawiadol o'r unfed ganrif ar ddeg, yr unig felin lanw wedi'i hadfer yng Nghymru, a phont ganoloesol, i gyd wedi'u cysylltu gan gylchdaith un filltir.
- Drwy gydol hyd y Llwybr mae ceiau bach, odynau calch a warysau, a safleoedd fel y gwaith brics ym Mhorthgain, yn ein hatgoffa o draddodiad diwydiannol. Mae dyfrffordd Aberdaugleddau, y rhyfeddodd Nelson ei hun ato unwaith, yn dal i fod yn ganolfan ddiwydiannol.
- Mae cwblhau Llwybr yr Arfordir mewn un tro yn cymryd rhwng 10 a 15 diwrnod ar gyfartaledd.
- Tyddewi, ar Lwybr yr Arfordir, yw dinas leiaf Prydain gyda phoblogaeth o dan 2,000. Cafodd statws dinas yn y ddeuddegfed ganrif, cyn ei golli ym 1886. Cafodd y statws ei adfer ym 1995 gan Siarter Frenhinol.




Bae'r Tri Chlogwyn

# OEDDECH CHI'N GWYBOD?

## Llwybr Arfordir Cymru

- Gwnaed dros 43 miliwn o ymweliadau ag arfordir Cymru yn ystod 2014 a oedd yn cynnwys cerdded fel gweithgaredd.
- Amcangyfrifir bod cerddwyr ar hyd Llwybr yr Arfordir yn gwario bron i £550 miliwn y flwyddyn
- Mae gan Gymru fwy o draethau Baner Las y filltir nag unrhyw le arall yn y DU
- Dyfarnwyd statws Baner Las i 40 o draethau yng Nghymru yn 2019
- Mae mwy na 100 o draethau ar hyd Llwybr yr Arfordir
- Mae Morglawdd Bae Caerdydd yn rhan o Lwybr Arfordir Cymru
- Mae Llwybr yr Arfordir yn cynnig cipolwg o forfilod gleision, dolffiniaid, palod, a morloi llwyd
- Mae dros 30 o longddrylliadau ym Mae Llandudno
- Gallwch gerdded cŵn ar dennyn ar Lwybr yr Arfordir ac mae rhai rhannau yn agored i farchogion
- Byddai'n cymryd tua dwy wythnos a hanner i gerdded y 186 milltir ar hyd arfordir Sir Benfro
- Mae Bae Rhosili yng Ngŵyr wedi'i ddewis ymhlith y 10 traeth gorau yn y byd
- Mae gan Ferthyr Mawr, ger Porthcawl, rai o'r twyni tywod mwyaf yn Ewrop
- Mae chwarae cwrs golff pentir Nefyn wedi cael ei gymharu â chwarae ar ddec cludwr awyrennau yng nghanol y môr
- Alice Liddell, a anwyd ym 1852, ac a oedd yn aml yn ymweld â Llandudno gyda'i theulu, oedd yr ysbrydoliaeth ar gyfer Alice in Wonderland gan Lewis Carroll
- Mae 30 o orsafoedd bad achub yr RNLI yng Nghymru / 40 o draethau a oruchwylir gan yr RNLI yng Nghymru
- De Ddwyrain Cymru sydd â'r ail amrediad llanw uchaf yn y byd
- Mae Llwybr Arfordir Cymru yn 870 milltir o hyd (1,400km) gyda mannau cychwyn a gorffen yn Sir y Fflint yn y gogledd ac yng Nghas-gwent yn y de.



# Cerdded Llwybr Arfordir Cymru a'r Llwybrau Cenedlaethol

## Cyffredinol

Mae cerdded yng Nghymru yn cynnig rhywbeth i bawb – o heicwyr profiadol i deuluoedd allan am dro hamddenol. Mae Llwybr Arfordir Cymru a thri Llwybr Cenedlaethol Cymru yn cynnig amrywiaeth anhygoel, gyda thirwedd sy'n newid o hyd, a phethau i'w gwneud a'u darganfod ar hyd y llwybrau cerdded pellter hir hyn a gydnabyddir yn rhyngwladol.

Yn yr adran hon fe welwch ddolenni i deithiau cerdded, gan ei gwneud yn hawdd adeiladu pecyn pwrpasol sy'n diwallu anghenion eich cwsmeriaid.

Ond nid cerdded yw'r unig beth sy'n cael ei gynnig. Archwiliwch y pecyn cymorth ymhellach i gael gwybod sut gallwch chi adeiladu pecynnau sy'n cynnwys amrywiaeth o wyliau ac ymweliadau – o dripiau traeth ymlaciol i deithiau drwy ddinasoedd.

Ac os oes angen unrhyw help arnoch, mae gennym rwydwaith o dywyswyr gwybodus ledled Cymru a all eich cynghori ar lunio cynllun llawn i'ch cwsmeriaid.

Cysylltwch â thîm y Llwybrau Cenedlaethol

Cysylltwch â Thîm Llwybr Arfordir Cymru

Coetir uwchben Llanidloes



Llwybr Glyndwr

# Teithiau cerdded

## Llwybr Clawdd Offa

Agorodd Llwybr Clawdd Offa, sy'n 177 milltir (285 Km) o hyd, yn haf 1971 ac mae'n cysylltu Clogwyni Sedbury ger Cas-gwent yn y de a chyrchfan gwyliau Prestatyn ar arfordir gogledd Cymru.

Mae'n pasio drwy wyth sir wahanol ac yn croesi'r ffin rhwng Cymru a Lloegr dros 20 gwaith. Mae'r Llwybr yn archwilio'r Gororau tawel (fel y gelwir y rhanbarth hon ar y ffin) ac mae'n mynd drwy Barc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog ar grib ysblennydd Hatterrall. Yn ogystal, mae'n cysylltu tair Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol – Dyffryn Gwy, Bryniau Swydd Amwythig a Bryniau Clwyd/Dyffryn Dyfrdwy

Dyma un enghraifft yn unig o'r teithiau cerdded y gall eich cwsmeriaid eu gwneud ar Lwybr Clawdd Offa:

**Taith Gylchol y Waun ac Afon Ceiriog**
Mae'r llwybr 6.5 milltir / 10.5 km hwn yn dechrau ger Gorsaf Reilffordd y Waun (cyfeirnod grid SJ 285 378) ac yn cysylltu'r dref â chastell y Waun, Llwybr Cenedlaethol Clawdd Offa ac Afon Ceiriog.

Mae'n mynd â chi drwy sawl ardal arbennig o hardd, sy'n golygu bod y daith gerdded hon yn werth chweil ym mhob tymor.

Ceir ambell i le parcio ar y stryd ger Gorsaf Reilffordd y Waun a gwasanaethau bws rheolaidd i fan cychwyn y daith gerdded - ffoniwch 01978 266166 am wybodaeth neu edrychwch ar yr amserlenni bysiau ar-lein.

Mae mapiau Explorer yr Arolwg Ordnans 255 a 256 yn cwmpasu'r ardal.

Gweld manylion llawn Taith Gylchol y Waun ac Afon Ceiriog

I'r rhai sy'n hoffi mynd i gyrchfannau arbennig wrth gerdded, dyma enghraifft o'r amrywiaeth o bethau i'w gweld a'u gwneud mewn dim ond dau ddiwrnod hamddenol ar **Lwybr Clawdd Offa**

**Diwrnod 1**

### Bore

Dechreuwch eich diwrnod yng Nghas-gwent gan ymweld â'r Castell anhygoel, wedi'i adeiladu mewn safle strategol sy'n uchel uwchben Afon Gwy. Comisiynwyd ei Dŵr Mawr gan Wiliam Goncwerwr prin flwyddyn ar ôl Brwydr Hastings, sy'n golygu mai Castell Cas-gwent yw'r castell carreg ôl-Rufeinig hynaf ym Mhrydain sydd wedi goroesi hyd heddiw.

Ar ôl eich ymweliad, ewch wrth eich pwysau drwy siopau boutique annibynnol Cas-gwent yng nghanol yr adeiladau Sioraidd a Fictoraidd yng nghanol y dref, cyn dod o hyd i rywle i gael tamaid o ginio.

### Prynhawn

Ymunwch â Llwybr Clawdd Offa sy'n mynd i'r dwyrain o Gas-gwent ac mae'n daith gerdded 6 milltir / 9 km i Dyndyrn ar ochr ddwyreiniol Afon Gwy, yn uchel ar y darren goediog gyda nifer o olygfannau adnabyddus - un o'r rhai mwyaf eiconig yw'r olygfa o Abaty Tyndyrn o Bulpud y Diafol.

Mwynhewch bryd o fwyd gyda'r nos ac arhosiad dros nos yn Nhyndyrn.

**Diwrnod 2**

### Bore

Rhaid i chi ymweld ag Abaty Tyndyrn yn y bore, ac yna gallwch fynd am ginio cynnar yn yr Hen Orsaf, a adeiladwyd yn wreiddiol fel gorsaf reilffordd wledig Fictoraidd ac sydd bellach yn gaffi poblogaidd.

### Prynhawn

Ar ôl cael eich cefn atoch, ailymunwch â'r Llwybr a cherdded y 9 milltir / 14 km i Drefynwy yn y prynhawn, gan groesi'r ffin i Gymru yn Redbrook a mwynhau'r olygfan yn Y Cymin, gyda'i neuadd wledda a'i deml forol o'r ail ganrif ar bymtheg.

Mwynhewch ddiwedd y prynhawn a phryd o fwyd gyda'r nos yn Nhrefynwy, tref ar y ffin sy'n eistedd ar gydlifiad Afonydd Gwy, Mynwy a Throddi ac sydd efallai'n fwyaf adnabyddus fel man geni Harri V. Un o dirnodau mwyaf adnabyddus y dref yw Pont Mynwy o'r drydedd ganrif ar ddeg, yr unig bont gaerog ganoloesol sy'n weddill ym Mhrydain Fawr, y mae'r Llwybr yn mynd oddi tani.

**Am fwy o ysbrydoliaeth:**
Edrychwch ar y gwefannau hyn am fanylion am y llwybrau a'r teithiau cerdded unigol:

Y Llwybrau Cenedlaethol

Croeso Cymru

Cymdeithas y Cerddwyr Pellter Hir

Cymdeithas Clawdd Offa



Llyn Efyrnwy, Llwybr Glyndŵr

# Teithiau cerdded

## Llwybr Glyndŵr

Mae Llwybr Glyndŵr yn 135 milltir (217 Km) o hyd. Mae'r Llwybr Cenedlaethol hwn yn galluogi ymwelwyr i brofi rhostir gwyllt, agored, tir fferm tonnog, a choetiroedd a choedwigoedd canolbarth Cymru. Mae'r llwybr yn dechrau yn Nhrefyclo ac yn gorffen yn y Trallwng, ac fe'i henwir ar ôl Owain Glyndŵr, Tywysog Cymru ac arweinydd cenedlaetholgar a drefnodd wrthryfel yn erbyn brenin Lloegr, Harri IV ym 1400.

Dyma un enghraifft yn unig o'r teithiau cerdded y gall eich cwsmeriaid eu gwneud ar Lwybr Glyndŵr:

### Glantwymyn i Fachynlleth

Parciwch ym Machynlleth a chymryd bws y T12 i Lantwymyn. Cerddwch y naw milltir yn ôl i Fachynlleth dros dir pori uchel ac ar hyd cefnen fain, gan fwynhau golygfeydd bendigedig i lawr dyffryn Dyfi. Daw'r daith gerdded i ben yng Nghanolfan Owain Glyndŵr ym Machynlleth.

Adeiladwyd y ganolfan ar safle'r senedd enwog a gynhaliwyd ym 1404 lle coronwyd Owain yn Dywysog Cymru. Mae ganddi arddangosfa ryngweithiol ac addysgiadol newydd ar fywyd, cyfnod a gweledigaeth Owain Glyndŵr - arweinydd y gwrthryfel, arwr cenedlaethol a'r Cymro olaf i hawlio'r teitl Tywysog Cymru, ddechrau'r bymthegfed ganrif.

Dysgwch fwy am y daith gerdded.

## I'r rhai sy'n hoffi mynd i gyrchfannau arbennig wrth gerdded, dyma enghraifft o'r amrywiaeth o bethau i'w gweld a'u gwneud mewn dim ond dau ddiwrnod hamddenol ar **Lwybr Glyndŵr**

### Diwrnod 1

#### Bore

Dechreuwch eich diwrnod ym mhentref hyfryd Abaty Cwm Hir, ychydig i'r gogledd o Landrindod, lle mae Eglwys Blwyf y Santes Fair yn sefyll yn osgeiddig.

Cymerwch olwg o amgylch adfeilion Abaty Cwm Hir ac Ystafell Arddangos Cadw sydd i'w gweld drwy 'Home Farm', y fferm frics coch yng nghanol y pentref. Mae'n fan delfrydol ar gyfer picnic, ac mae pawb yn canu clod i'r teimlad o heddwch sydd gan y lle gyda Nant Clywedog yn llifo y tu hwnt i'r pwll pysgod ar waelod y cae.

#### Prynhawn

Efallai y byddwch am gael rhywbeth i'ch bywiogi yn yr Happy Union Inn yn y pentref cyn dechrau ar Lwybr Glyndŵr a mwynhau'r golygfeydd godidog ar y daith gerdded 11 milltir / 17 km i Lanidloes lle gallwch aros dros nos.

### Diwrnod 2

#### Bore

Ymlaciwch am ychydig oriau yn Llanidloes gyda'r oriel gelf, amgueddfa, siopau coffi a siopau boutique. Llenwch eich sach gyda rhywbeth am bicnic a pharhewch ar Lwybr Glyndŵr am 3 milltir / 4 km hamddenol i Gronfa Ddŵr Clywedog.

#### Prynhawn

Ymlaciwch am weddill y dydd, gan fwynhau golygfeydd ysgubol gyda'ch picnic, a chwilio am y bwncathod neu'r barcutiaid cochion y gallwch eu gweld yn hedfan ar yr awel gynnes, ac ewch i ymweld ag Adeiladau Mwynglawdd Plwm Bryntail.

Yn eistedd yng nghysgod yr argae ym mhen deheuol y Gronfa Ddŵr, mae adeiladau Bryntail yn gipolwg yn ôl i'r bedwaredd ganrif ar bymtheg pan oedd y man tawel hwn yn safle prysur ar gyfer echdynnu a phrosesu plwm. Caeodd ym 1884 ond mae'r olion sy'n dal i sefyll yn cynnwys tai mathru, biniau mwynau, ffyrnau rhostio, gefeiliau gofaint a swyddfa rheolwr y mwynglawdd.



Adeiladau Mwynglawdd Plwm Bryntail

### Am fwy o ysbrydoliaeth:

Edrychwch ar y gwefannau hyn am fanylion am y llwybrau a'r teithiau cerdded unigol:

Y Llwybrau Cenedlaethol

Canolbarth Cymru

Cymdeithas y Cerddwyr Pellter Hir

Ramblers



Goleudy Pen Strwmbwl, Sir Benfro

# Teithiau cerdded

## Llwybr Arfordir Sir Benfro

Gan ddilyn arfordir gorllewin Cymru am 186 milltir (299km) mae Llwybr Arfordir Sir Benfro yn mynd drwy rai o olygfeydd mwyaf syfrdanol Prydain. O bentref pert Llandudoch ar lan Afon Teifi yn y gogledd i Amroth, gyda'i draeth tywodlyd gwastad, hir yn y de, mae'r llwybr yn cwmpasu bron pob math o dirwedd forol o glogwyni calchfaen serth, baeau tywodfaen coch tonnog, pentiroedd folcanig, traethau, aberoedd a chymoedd rhewlifol sydd bellach dan ddŵr.

Dyma un enghraifft yn unig o'r teithiau cerdded y gall eich cwsmeriaid eu gwneud ar Lwybr Arfordir Sir Benfro:

### Dale i Martin's Haven

Mae'r rhan hon o Lwybr yr Arfordir, sy'n 10.5 milltir / 17km o hyd, yn weddol anodd ac yn dangos pentiroedd gwyllt ac agored Sir Benfro a rhai o'i thraethau gorau. Mae'n mynd â chi i geg aber Aberdaugleddau ym Mhenrhyn Santes Ann heibio Bae Watwick a Bae Mill, sy'n enwog fel man glanio Harri VII ym 1485 wrth iddo wneud ei ffordd i Frwydr Bosworth.

Wrth i chi basio'r maes awyr segur yn Dale, byddwch chi'n mynd o gwmpas Pwynt Hooper i'r olygfa wych o Draeth Marloes sy'n ymestyn allan o'ch blaen. Serennodd y traeth yn y ffilm Hollywood o 2012, Snow White and the Huntsman.

Mae'r man gorffen, y pwynt mwyaf gorllewinol ar benrhyn Marloes, yn edrych dros lanw tymhestlog Swnt Jack ac Ynys Sgomer a dyma lle mae cylch llydan Bae Sain Ffraid yn dod i'r golwg.

Am dro byrrach, gallwch hepgor penrhyn Santes Ann a cherdded y 4.5 milltir rhwng Dale a Martin's Haven.

Dysgwch fwy am y daith gerdded o Dale i Martin's Haven

I'r rhai sy'n hoffi mynd i gyrchfannau arbennig wrth gerdded, dyma enghraifft o'r amrywiaeth o bethau i'w gweld a'u gwneud mewn dim ond dau ddiwrnod hamddenol ar **Lwybr Arfordir Sir Benfro**

## Diwrnod 1

### Bore

Mae eich diwrnod yn dechrau yn Saundersfoot, tref glan môr fach, hyfryd gyda bae eang, hardd. Ewch i un o'r caffis lleol am goffi cynnar neu frecwast hwyr, ac ewch am dro drwy'r siopau boutique neu ar hyd y traeth a rownd yr harbwr.

O Saundersfoot, mae'n daith gerdded 3.5 milltir / 6 km ar hyd Llwybr yr Arfordir i Ddinbych-y-pysgod – lle bydd digon i'w wneud am weddill y dydd!

### Prynhawn

Mae Dinbych-y-pysgod yn llawn llefydd i gael cinio braf, ac ar ôl hynny gallwch fynd am dro o amgylch y dref gyda'i ffasadau Sioraidd, rhoi cynnig ar bysgota mecryll, eistedd ar y traeth, neu fynd ar gwch i ynys enwog y mynaich, Ynys Bŷr, nid nepell o'r tir mawr.

Ac nid oes prinder gwestai a llety gwely a brecwast am arhosiad cyfforddus dros nos.

## Diwrnod 2

### Bore

Dechreuwch gyda thaith gerdded fer o 4 milltir / 6.5 km ar hyd y llwybr o Ddinbych-y-pysgod i Lydstep Haven, pentref prydferth gyda thraeth graean a thywod. Mae'n boblogaidd iawn gyda nofwyr a'r rheini sy'n hoff o chwaraeon dŵr ac mae golygfa wych o Ynys Bŷr o'r traeth.

Oddi yno ewch ymlaen am 2 filltir / 3 km arall i Faenorbŷr. Yn swatio ar y clogwyni yng nghanol y pentref, allwch chi ddim methu ei Gastell Normanaidd, sy'n syllu'n fawreddog dros draeth hardd Maenorbŷr gyda'r pentref yn cuddio y tu ôl iddo. Wedi'i drwytho mewn hanes a llên gwerin, mae gan y trysor Normanaidd hwn lawer o gyfrinachau i'w darganfod gyda'i dyrau tylwyth teg, neuadd fawr, capel a gerddi wedi'u tirlunio a gynlluniwyd gan Daphne Shackleton, un o arbenigwyr planhigion mwyaf blaenllaw Iwerddon.

Ar ôl disgyn sawl gwaith rhwng lefel y môr a chlogwyni 60 metr o uchder byddwch yn falch o gael toriad yng nghaffi'r castell.

### Prynhawn

Bydd eich cinio yn eich paratoi ar gyfer taith gerdded olaf y dydd – y 3.5 milltir i Freshwater East, gyda'i draeth eang, pyllau glan môr lle gallwch hela crancod a'i gysylltiad â ffilmiau Harry Potter a Robin Hood.

**Am fwy o ysbrydoliaeth:**


Edrychwch ar y gwefannau hyn am fanylion am y llwybrau a'r teithiau cerdded unigol:

Y Llwybrau Cenedlaethol

Arfordir Sir Benfro

Croeso Cymru

Cymdeithas y Cerddwyr Pellter Hir



Ynys Llanddwyn, Ynys Môn

# Teithiau cerdded

## Llwybr Arfordir Cymru

Yn ymestyn o Sir y Fflint yn y gogledd i Gas-gwent yn y de mae Llwybr Arfordir Cymru yn mynd heibio 40 o draethau Baner Las – y casgliad mwyaf ohonynt yn unrhyw le yn y DU. Yn ei flwyddyn gyntaf o fod ar agor, 2012, amcangyfrifir bod bron i dair miliwn o bobl wedi cerdded y llwybr. Mae'n parhau i ddenu ymwelwyr o bedwar ban y byd.

Dyma un enghraifft yn unig o'r teithiau cerdded y gall eich cwsmeriaid eu gwneud ar Lwybr Arfordir Cymru:

### Ynys Llanddwyn a Choedwig Niwbwrch, Ynys Môn

Mae'r daith gerdded hawdd hon sy'n 4 milltir / 6 km o hyd yn mynd â chi i un o safleoedd hanesyddol mwyaf rhamantus Cymru, gyda digon o fywyd gwyllt ar y ffordd.

Gan ddechrau o faes parcio Llyn Rhos Ddu gallwch naill ai gerdded allan ar hyd y traeth neu drwy Goedwig Niwbwrch, cynefin pwysig i wiwerod coch a niferoedd mawr o gigfrain yn clwydo.

Byddwch yn dod allan o'r goedwig yn agos i Ynys Llanddwyn, sy'n gartref i olion Eglwys Santes Dwynwen, a enwyd ar ôl y dywysoges Geltaidd sy'n nawddsant cariadon Cymru.

Yn agos i'r eglwys mae ffynnon sanctaidd, wedi'i boblogi gan lysywod y dywedir eu bod yn gallu rhagfynegi eich dyfodol carwriaethol. Os ydyn nhw'n neidio pan fyddwch chi'n ymweld, rydych chi'n sicr o fod yn lwcus wrth fynd ar drywydd cariad.

Gallwch hefyd weld olion dau oleudy o'r bedwaredd ganrif ar bymtheg ar ben yr ynys, ochr yn ochr â dau fwthyn wedi'u hadfer a arferai fod yn gartref i beilotiaid. Byddai'r dynion a oedd yn byw yma yn rhwyfo allan i helpu llongau i groesi'r barrau tywod peryglus rhwng Caernarfon a phwynt Abermenai, yn ogystal â gofalu am y bad achub lleol.

Dilynwch eich camau yn ôl i'ch man cychwyn.

Dysgwch fwy am daith gerdded Ynys Llanddwyn a Choedwig Niwbwrch. Dewch o hyd i fwy o deithiau cerdded byr a theithiau cerdded hirach ar wefan Llwybr Arfordir Cymru.

I'r rhai sy'n hoffi mynd i gyrchfannau arbennig wrth gerdded, dyma enghraifft o'r amrywiaeth o bethau i'w gweld a'u gwneud mewn dim ond dau ddiwrnod hamddenol ar **Llwybr Arfordir Cymru**

## Diwrnod 1

### Bore

Dechreuwch yr ychydig ddyddiau hyn gydag ymweliad â Chastell Cricieth sy'n eistedd ar ei bentir creigiog ei hun rhwng dau draeth gyda golygfeydd eang dros y dref ac ar draws cylch eang Bae Ceredigion.

Dechreuwch gerdded eto ar ôl eich ymweliad gyda thaith 5 milltir / 8 km ar hyd yr arfordir heibio traeth helaeth Morfa Bychan i bentref atmosfferig Borth y Gest. Ar hyd ymylon aber hardd afon Glaslyn, mae rhai caffis a siopau croesawgar yma i daro i mewn iddynt.

Ychydig funudau ymhellach ar hyd y llwybr ac rydych chi ym Mhorthmadog – yn barod am ginio.

### Prynhawn

Treuliwch y prynhawn yn archwilio siopau ac atyniadau Porthmadog.

Efallai y byddwch am fynd ar daith ar Reilffordd Treftadaeth Ucheldir Cymru, sydd wedi'i lleoli yn y dref. Gallai eich trên gynnwys y cerbyd y cludwyd y Prif Weinidog William Ewart Gladstone ynddo pan ymwelodd â'r rheilffordd ym 1892!

## Diwrnod 2

### Bore

Ar ôl arhosiad dros nos ym Mhorthmadog, dilynwch y Llwybr ar draws y sarn a groesoch ddoe ar y trên i bentref Eidalaidd unigryw Portmeirion, dim ond 2 filltir / 3 km i ffwrdd. Cafodd y pentref anarferol hwn, a ysbrydolwyd gan bentrefi Canoldir Ewrop, ac a gynlluniwyd gan Syr Clough Williams Ellis, ei ddefnyddio fel lleoliad ar gyfer y gyfres cwlt o'r 60au, The Prisoner.

### Prynhawn

Ar ôl rhywfaint o luniaeth amser cinio ym Mhortmeirion, ailymunwch â Llwybr yr Arfordir am y daith gerdded 5 milltir / 8 km i gastell trawiadol arall - Castell Harlech – i gau pen y mwdwl ar eich dau ddiwrnod yng Ngwynedd.

Mae'r gaer fawreddog hon yn coroni craig ysgithrog uchel sy'n edrych dros y twyni ymhell islaw a chopaon geirwon Eryri sy'n gefndir iddi. Mae'n un o'r lleoliadau mwyaf trawiadol gan unrhyw gastell yn unrhyw le, ac ynghyd â chestyll Conwy, Caernarfon a Biwmares – sydd i gyd ar ran ogleddol Llwybr yr Arfordir - mae wedi'i ddynodi'n Safle Treftadaeth y Byd.

### Am fwy o ysbrydoliaeth:

Mae Llwybr Arfordir Cymru wedi'i rannu'n **wyth** adran:

Arfordir Gogledd Cymru ac Aber Afon Dyfrdwy
Ynys Môn
Arfordir Llŷn ac Eryri
Ceredigion
Llwybr Arfordir Sir Benfro
Sir Gaerfyrddin
Gŵyr a Bae Abertawe
Arfordir De Cymru ac Aber Afon Hafren

### Gallwch lawrlwytho taflenni unigol ar bob un o'r adrannau yma

Mae gan bob taflen adran basbort lle rhennir y rhanbarth cyfan yn rhestr o deithiau cerdded llai sy'n bedair neu bum milltir, yn bennaf rhwng trefi a phentrefi.

### Dolenni defnyddiol

**Llwybr Arfordir Cymru**

**Croeso Cymru**

**Cymdeithas y Cerddwyr Pellter Hir**

**Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol**

**Ramblers Cymru**



Ceredigion, Canolbarth Cymru

# Ble i Aros

## Tai bynciau, canolfannau gweithgareddau awyr agored, unedau hunanarlwyo, safleoedd gwersylla, llety gwely a brecwast, gwestai... mae gan Gymru bob math o lety i apelio at drefnwyr teithiau grŵp a chwmnïau gwyliau.

Boed westy neu dŷ bynciau, mae pob llety'n llawn cymeriad a hanes ac yn amlach na pheidio maent wedi'u lleoli mewn amgylcheddau trawiadol sy'n gwneud y gorau o olygfeydd o gefn gwlad neu'r môr.

Ar hyd llwybrau cerdded Cymru, mae pob un ohonynt wedi hen arfer â lletya cerddwyr, a bydd llawer yn cynnig cyfleusterau fel ystafelloedd sychu, gwasanaethau anfon bagiau ymlaen a phecynnau bwyd i alluogi eich cleientiaid i gael y gorau o'u harhosiad.

Nid oes man cychwyn gwell i ddarganfod lleoedd i aros ynddynt ar hyd y llwybrau na chronfa ddata gynhwysfawr Croeso Cymru.

Mae'r holl fusnesau llety a restrir yma wedi'u hachredu naill ai drwy Croeso Cymru neu'r AA. Mae sêr graddio Croeso Cymru yn arwydd cydnabyddedig o ansawdd fel y gallwch fod yn sicr bod y busnes wedi'i arolygu'n llawn.

Defnyddiwch dermau chwilio fel "grwpiau", "llety grŵp" neu "gwestai ar gyfer grwpiau" a defnyddiwch unrhyw hidlyddion ychwanegol i ddidoli'r canlyniadau. Mae'r opsiwn "Golwg map" yn ffordd wych o weld yn hawdd a yw lleoliad y llety yn addas ar gyfer eich anghenion.

Mae'r cronfeydd data chwiliadwy hyn gan Twristiaeth Gogledd Cymru, Go North Wales a Canolbarth Cymru yn adnodd pellach os ydych yn chwilio am syniadau am lety.

Edrychwch ar y gwefannau hyn sydd â manylion ychwanegol am lety.

Llwybr Clawdd Offa

Llwybr Glyndŵr

# Teithio o Le i Le

## Mae'n hawdd cyrraedd Cymru o weddill y DU ar y ffordd – drwy'r A55 o Gaer a Gogledd Lloegr, yr A458 o Amwythig a Chanolbarth Lloegr, a'r M4 o Fryste, y De Orllewin a'r De Ddwyrain.

Mae amrywiaeth o opsiynau trafnidiaeth gyhoeddus ar gyfer y rhai sy'n ymweld â'r llwybrau a'r trefi a'r pentrefi ar hyd y llwybrau.

Mae'r brif reilffordd yn Ne a Gorllewin Cymru yn cysylltu Cas-gwent, Casnewydd, Caerdydd, Abertawe, Caerfyrddin a Sir Benfro. Mae rheilffyrdd o Gasnewydd, Caerdydd a Phen-y-bont ar Ogwr yn gwasanaethu'r Cymoedd, Dyffryn Gwy a Dyffryn Wysg.

Yng Ngogledd Cymru, mae prif reilffordd yn rhedeg ar hyd arfordir y gogledd drwy Brestatyn, y Rhyl, Bae Colwyn, Llandudno, Conwy a Bangor i Gaergybi.

Mae sawl rheilffordd â golygfeydd hyfryd hefyd yng Nghanolbarth a Gogledd Cymru. Mae Lein Calon Cymru o Amwythig i Lanelli ac Abertawe yn torri'n lletraws ar draws y canolbarth. Mae Rheilffordd y Cambrian yn rhedeg i'r gorllewin o Amwythig i Fachynlleth, lle mae'n cwrdd â Rheilffordd Arfordir y Cambrian, sy'n cysylltu Aberystwyth a Phwllheli ar Benrhyn Llŷn. Mae Rheilffordd Dyffryn Conwy yn rhedeg o Landudno trwy Eryri i Flaenau Ffestiniog.

### Dolenni trên defnyddiol:

National Rail

Traveline Cymru

Trafnidiaeth Cymru

Great Western

Virgin Trains

Rheilffordd Dyffryn Conwy

Mae nifer o lwybrau bysiau hefyd yn cysylltu trefi allweddol sy'n rhoi mynediad i rai o'r llwybrau. Mae National Express yn gweithredu gwasanaethau bysiau pellter hir rhwng dinasoedd ar hyd arfordir y de o Gaerdydd ac Abertawe i Sir Benfro; o'r Drenewydd i Aberystwyth ar arfordir y gorllewin; ac ar hyd arfordir y gogledd o Brestatyn, Y Rhyl, Bae Colwyn a Llandudno i Fangor.

Mae **Megabus** yn rhedeg gwasanaeth bws rhad rhwng Casnewydd, Caerdydd, Abertawe, Caerfyrddin a Doc Penfro.

National Express

Megabus

Traws Cymru

Fflecsi Bus

Arfordir Sir Benfro

Crwydro Bae Ceredigion

Bws Arfordir Llŷn

Mae mynediad digyfyngiad i wasanaethau trên prif linellau Cymru a llawer o lwybrau bysiau ar gael gyda Phàs **Archwilio Cymru**, sydd hefyd yn cynnig mynediad â gostyngiad i lawer o atyniadau i dwristiaid.

Mae cerdyn rheilffordd yn cynnig 33 y cant oddi ar docynnau oedolion a 60 y cant oddi ar docynnau plant ar wasanaethau rheilffordd y prif linellau, ac mae cerdyn disgownt Trenau Bach Arbennig Cymru yn sicrhau 20 y cant oddi ar y gost i oedolion ar sawl rheilffordd stêm gul yng Nghymru.

Explore Wales

Railcard

Trenau Bach Arbennig Cymru

Cludiant Cyhoeddus yng Nghymru



Llanilltud Fawr, De Cymru

# Parcio bysiau

## Fel cenedl sydd wedi hen arfer â darparu ar gyfer twristiaeth, fe welwch ddigon o fannau ar gyfer parcio bysiau mewn llawer o drefi ac atyniadau yng Nghymru.

Efallai fod gennym drefi a phentrefi rif y gwlith, a phrinder traffyrdd i'w cyrraedd o gymharu â rhannau eraill o'r DU, ond serch hynny mae'r prif rwydweithiau ffyrdd sy'n croesi Cymru yn galluogi teithio ar fysiau heb drafferth.

Ac unwaith y byddwch yn cyrraedd eich cyrchfan, mae canol trefi a'u hatyniadau yn gwneud yn siŵr y bydd croeso i'ch bws, gyda mannau parcio dynodedig a chyfleusterau i yrwyr. Byddwch yn naturiol am wneud cymaint o gynllunio â phosibl ymlaen llaw fel bod eich bysiau yn gwybod yn union ble maent yn mynd. Mae gan wefan Coach Buddy restr gynhwysfawr o gyfleusterau bysiau yng Nghymru fesul tref.

**Mae llawer o awdurdodau lleol hefyd yn cyhoeddi gwybodaeth ddefnyddiol am barcio bysiau a all fod yn amhrisiadwy os ydych yn cynllunio teithiau:**

**Glyndŵr's Way**
Bysiau Visit Welshpool – Ewch i Y Trallwng

**Llwybr Clawdd Offa**
Parcio Bysiau yn Nyffryn Gwy a Dyffryn Wysg

Bysiau Visit Welshpool – Ewch i Y Trallwng

Parcio Bysiau Groups North Wales

Parcio Bysiau Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam

Parcio bysiau - Y Rhyl Cyngor Sir Ddinbych

**Llwybr Arfordir Sir Benfro**
Bysiau - Cyngor Sir Penfro

**Llwybr Arfordir Cymru**
Parcio Bysiau Groups North Wales

Parcio Bysiau Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam

Parcio bysiau - Y Rhyl Cyngor Sir Ddinbych

Parcio Bysiau Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy

Bysiau - Cyngor Sir Penfro

Parcio Bysiau – Tourism Swansea Bay

Prisiau Meysydd Parcio'r Arfordir Cyngor Bro Morgannwg

Parcio Bysiau – Cyngor Caerdydd

Parcio Bysiau yn Nyffryn Gwy a Bro Wysg

Bysiau Visit Welshpool – Ewch i Y Trallwng

# Cyfleusterau porthladdoedd mordeithio

## Mae gan Gymru seilwaith soffistigedig sy'n tyfu ar gyfer croesawu llongau mordeithio i'w glannau.

Wrth reswm, mae ei holl borthladdoedd yn fannau cychwyn delfrydol ar gyfer cael mynediad i Lwybr Arfordir Cymru a Llwybr Arfordir Sir Benfro, yn ogystal â mannau cychwyn Gogledd a De Llwybr Clawdd Offa. Mae chwe phorthladd yng Nghymru yn cael ymweliadau rheolaidd gan longau mordeithio a rhyngddynt gallant ddarparu ar gyfer llongau o ystod o wahanol feintiau.

Mae pob un ohonynt wedi'u paratoi'n benodol at drosglwyddo a chroesawu teithwyr llongau mordeithio. Maent yn brofiadol ac yn deall anghenion teithwyr a chriwiau sy'n cyrraedd y porthladdoedd, a byddant yn falch o weithio gyda gweithredwyr teithiau i gynllunio dyfodiad llong a helpu gyda threfnu teithiau a chludiant ymlaen i gyrchfannau eraill. Bydd pob un yn rhoi croeso cynnes i deithwyr, yn aml gydag adloniant, bwyd, diod a chrefftau, a thîm croesawgar a all roi gwybodaeth a chyngor lleol ar atyniadau'r porthladd a'r wlad y tu hwnt.

**Caerdydd**
Gan wasanaethu Prifddinas Cymru, mae Porthladd Caerdydd yn addas ar gyfer llongau mordeithio bach a chanolig eu maint ac mae'n gallu darparu gwasanaethau wedi'u teilwra i fodloni gofynion unigol pob llong sy'n galw. Mae Porthladd Caerdydd yn cydymffurfio'n llawn â Chod ISPS a phan fydd llong yn cyrraedd mae'r angorfa gyfan wedi'i ffensio a'i batrolio i fodloni'r gofynion diogelwch presennol. Gellir sgrinio teithwyr, criwiau, ymwelwyr a bagiau hefyd wrth fynd i mewn i'r ardal gyfyngedig. Mae gwasanaethau llywio a halio llawn ar gael a thra bod y llong yn y porthladd gall hefyd ddefnyddio'r cyfle i lenwi â thanwydd, dŵr, storfeydd a gwaredu gwastraff.
Porthladd Mordeithio Caerdydd

**Abergwaun**
Yn borth naturiol i Lwybr Arfordir Sir Benfro, dinas Tyddewi ac i lawer o atyniadau eraill, mae tref hanesyddol a phorthladd fferi modern Abergwaun yng ngogledd Sir Benfro. Mae ei angorfa dendio'n caniatáu i longau mordeithio mwy o faint angori o fewn y porthladd, yn ogystal â'r angorfa ochrog, gysgodol, bresennol ar gyfer llongau mordeithio alldeithio. Mae teledu cylch cyfyng digidol yn cwmpasu Porthladd Abergwaun yn llawn. Mae dwy angorfa wedi'u ffensio'n llawn mewn modd a gymeradwyir gan Adran Drafnidiaeth y DU gyda dau arall wedi'u ffensio mewn modd tebyg dros dro yn ystod y tymor mordeithio.
Porth Mordeithio Abergwaun

**Caergybi**
Wedi'i leoli ar Ynys Môn, Porthladd Caergybi yw'r porth i Ogledd Cymru ac Eryri. Mae Caergybi yn borthladd 24 awr, dŵr dwfn, di-glo ac mae'r mesurau diogelwch yn cydymffurfio'n gyfan gwbl â'r cod ISPS. Mae gan y Porth system teledu cylch cyfyng soffistigedig wedi'i recordio'n ddigidol ac mae'n cael ei arolygu'n rheolaidd gan Arolygwyr Diogelwch Morol y Llywodraeth. Mae pwynt angori ar gael ar gyfer llongau dros 300 metr gyda chychod tendio drwy'r Marina.
Porthladd Mordeithio Caergybi

**Aberdaugleddau**
Porthladd Aberdaugleddau yng Ngorllewin Cymru yw un o'r harbyrau naturiol dyfnaf yn y byd, wedi'i leoli yn unig Barc Cenedlaethol arfordirol Prydain ac yn ddelfrydol ar gyfer mynediad i Lwybr Arfordir Sir Benfro. Gall llongau hyd at 160m LOA orwedd wrth ochr ei gilydd ym Mhorthladd Penfro, dim ond deng munud o Gastell hanesyddol Penfro, tra bod llongau mwy hyd at 220m LOA wedi'u hangori'n ddiogel ar Silff Aberdaugleddau, lle mae'n daith fer ar gwch tendio i'r hen ddociau a marina a bwytai prysur Aberdaugleddau.
Porthladd Mordeithio Aberdaugleddau

**Casnewydd**
Ar arfordir de-ddwyrain Cymru, mae Casnewydd yn dod â theithwyr i'r lan o fewn tafliad carreg o Lwybr Arfordir Cymru, a thaith fer i ddechrau Llwybr Clawdd Offa. Gall y porthladd ddarparu cyfleusterau ar gyfer llongau sy'n dymuno gweithredu mordeithiau cyfnewid o Dde Cymru ac mae wedi'i gysylltu'n dda â'r rhwydwaith traffyrdd a rheilffyrdd cenedlaethol. Tra bod y llong yn y porthladd mewn angorfa ochr yn ochr â llongau eraill, gall hefyd fanteisio ar y cyfle i lenwi â thanwydd, dŵr, storfeydd a gwaredu gwastraff.
Porthladd Mordeithio Casnewydd

**Abertawe**
Abertawe yw ail ddinas Cymru a'r porth mwyaf canolog i holl arfordir y de. Bydd teithwyr yn mynd oddi ar y llong drwy dwnnel, a bydd staff yn darparu gwybodaeth i ymwelwyr a chynlluniau ar gyfer teithiau. Mae llefydd parcio ar gyfer bysiau ar lan y cei a gellir darparu bysiau gwennol. Tra bod y llong yn y porthladd gall hefyd ddefnyddio'r cyfle i lenwi â thanwydd, dŵr, storfeydd a gwaredu gwastraff.
Porthladd Mordeithio Abertawe

# Gwasanaethau anfon bagiau ymlaen

Mae llawer o gwmnïau yng Nghymru a thu hwnt yn cynnig gwasanaethau anfon bagiau ymlaen y gallwch fanteisio arnynt i wneud bywyd yn hawdd i'ch cwsmeriaid sydd ar eu gwyliau cerdded. Mae'r dolenni isod yn rhoi awgrymiadau ar gyfer cwmnïau y gallwch gysylltu â hwy – sylwer nad ydym yn gwneud unrhyw sylwadau na gwarantau ynghylch addasrwydd, dibynadwyedd nac argaeledd unrhyw un o'r gwasanaethau.

Llwybr Arfordir Cymru

Llwybr Glyndŵr

Llwybr Clawdd Offa

Llwybr Arfordir Sir Benfro



Aberogwr, Ogwr

# Pethau i'w gwneud

**Un o fanteision bychander Cymru yw bod ein gwlad yn ferw o bethau i'w gwneud, felly bydd dim ond taith gerdded fer, neu daith fer mewn car neu fws o unrhyw bwynt ar y llwybr yn mynd â chi i le neu atyniad i dreulio ychydig oriau lle byddwch wrth eich bodd – gan ychwanegu diddordeb a chyfoeth at wyliau cerdded.**

Gall eich cwsmeriaid roi cynnig ar weithgareddau rhwydd neu rai sy'n eu llenwi â gwefr, ymgolli mewn trefi hanesyddol, ymweld â chestyll hynafol ac amgueddfeydd diddorol, ymlacio ar rai o draethau gorau Ewrop, mwynhau gŵyl neu gael golwg agor ar fywyd gwyllt Cymru.

Ac mae nifer enfawr o ddigwyddiadau drwy gydol y flwyddyn, nid yn yr haf yn unig. Mae gweithgareddau ar gael drwy gydol y tymor, o nofio yn y môr dros y Nadolig a'r Flwyddyn Newydd, i ddathliadau traddodiadol Dydd Gŵyl Dewi ym mis Mawrth a ffeiriau a gwyliau bwyd a diod yn yr hydref a'r gaeaf.

Ynghyd â gwyliau cerdded, marchnadoedd ffermwyr lleol, ffeiriau pentref a gwyliau bwyd a diod, mae rhywbeth yn digwydd o hyd ar y Llwybrau.

### Gwyliau cerdded

Bydd eich cwsmeriaid ar eu gwyliau cerdded wrth eu boddau'n profi arfordir a chefn gwlad sydd ymhlith y mwyaf trawiadol sydd gan Brydain i'w gynnig ar unrhyw ran o'r pedwar llwybr. Gallant hefyd ddod i Gymru a chymryd rhan yn un o'r gwyliau niferus i ddathlu'r llawenydd a ddaw wrth gerdded.

Edrychwch ar y dolenni hyn i gael gwybod am wyliau sy'n benodol ar gyfer cerdded:

Teithiau cerdded yng Nghas-gwent

Teithiau cerdded yn Kington

Gŵyl gerdded Bishop's Castle

Gŵyl gerdded Trefaldwyn

Gŵyl gerdded Llangollen

Gŵyl gerdded Prestatyn

### Calendrau digwyddiadau

Edrychwch ar y calendrau digwyddiadau hyn ar gyfer pob llwybr i weld beth sydd ymlaen…

Llwybr Arfordir Cymru / Digwyddiadau

Llwybr Clawdd Offa - Llwybr Cenedlaethol

Llwybr Glyndŵr - Llwybr Cenedlaethol

Llwybr Arfordir Sir Benfro - Llwybr Cenedlaethol

## Cronfeydd data gweithgareddau ac atyniadau

Lle gwych arall i ddechrau adeiladu syniadau ar gyfer teithiau ac anturiaethau yw gwefan Croeso Cymru, sy'n cynnwys cronfa ddata chwiliadwy o weithgareddau ac atyniadau.

Pethau i'w gwneud yng Nghymru a Llefydd i fynd iddynt

Mae llawer o atyniadau'n cymryd rhan yn y Cynllun Ansawdd Atyniadau Ymwelwyr, felly gallwch fod yn sicr y bydd profiadau eich cleientiaid o'r ansawdd uchaf.

Mae'n hawdd chwilio yn y gronfa ddata gan ddefnyddio'r is-adrannau defnyddiol, neu gallwch ddefnyddio'r blwch testun rhydd a defnyddio'r hidlwyr i archwilio opsiynau fesul ardal neu dref benodol.

Cofiwch am Ŵyl y Gelli yn ystod gwyliau hanner tymor yr haf, Eisteddfod Ryngwladol Llangollen ym mis Gorffennaf - neu beth am Ŵyl Gomedi Machynlleth ddechrau mis Mai, ar bwynt hanner ffordd Llwybr Glyndŵr?

Digwyddiadau a gwyliau blynyddol yng Nghymru
Diwydiant Teithio Cymru

Beth sydd Ymlaen | Digwyddiadau a Phethau i'w Gwneud yng Nghymru

Defnyddiwch y nodwedd chwilio ddefnyddiol yn yr is-adrannau fel man cychwyn, neu defnyddiwch y nodwedd chwilio testun rhydd i chwilio am ddigwyddiadau mewn rhan benodol o Gymru.

Mae'r tudalennau gwe hyn hefyd yn rhoi gwybodaeth gyffredinol wych am y pethau gorau i'w gweld a'u gwneud…..

Croeso Caerdydd

Visit Pembrokeshire

Visit Snowdonia

Darganfod Sir y Fflint

Canolbarth Cymru

Ymweld â Chasnewydd

Atyniadau Grŵp | Groups North Wales

Cadw



Teithiau Cychod Ynys Dewi, Sir Benfro



Yr Wyddfa, Parc Cenedlaethol Eryri



Parc Antur, Eryri



Llwybr Arfordir Cymru, Biwmares, Ynys Môn

**Pethau i'w gwneud yn ôl tref ar hyd pob llwybr**
Os ydych yn edrych ar adran benodol iawn o un o'r llwybrau, edrychwch ar y gwefannau hyn hefyd am ysbrydoliaeth bellach:

## Llwybr Clawdd Offa

**Cas-gwent**
Pethau i'w gwneud yng Nghas-gwent, Sir Fynwy | Croeso Cymru

Chepstow Castle | Cadw

**Trefynwy**
Pethau i'w Gwneud yn Sir Fynwy

**Y Gelli Gandryll**
Canllaw i'r Gelli Gandryll | Croeso Cymru

**Trefyclo**
Pethau i'w Gwneud – Visit Knighton

**Trefaldwyn**
Pethau i'w Gwneud - cipolwg • Ymweld â Threfaldwyn

**Llangollen**
Pethau i'w gwneud ym Mro Llangollen

**Y Rhyl a Phrestatyn**
Diwrnodau allan ac atyniadau | Y Rhyl a Phrestatyn | Croeso Cymru


Castell Maldwyn


Abaty Valle Crucis, Sir Ddinbych

## Llwybr Glyndŵr

**Y Trallwng**
Pethau i'w gwneud yn Y Trallwng a'r cyffiniau | Croeso Cymru

**Machynlleth**
Pethau i'w gwneud ym Machynlleth a'r cyffiniau | Croeso Cymru

**Llanidloes**
Pethau i'w gwneud - Llanidloes Canolbarth Cymru DU

**Trefyclo**
Pethau i'w Gwneud - Ymweld â Threfyclo


Gardd Castell Powys, Y Trallwng



Caiacwyr, Harbwr Porthclais, Bae Santes Non, Sir Benfro

# Llwybr Arfordir Cymru

**Y Rhyl a Phrestatyn**
Diwrnodau allan ac atyniadau | Y Rhyl a Phrestatyn | Croeso Cymru

**Llandudno**
Diwrnodau allan i'r teulu yn Llandudno
Croeso Cymru

**Biwmares**
Biwmares
Castell Biwmares | Cadw

**Caernarfon**
Atyniadau yng Nghaernarfon
Castell Caernarfon | Cadw

**Cricieth**
Castell Cricieth | Cadw

**Porthmadog**
Porthmadog | Visit Snowdonia

**Harlech**
Castell Harlech | Cadw

**Aberystwyth**
Canllaw i Aberystwyth | Canol y Dref a Diwylliant | Croeso Cymru

**Aberaeron**
Pethau i'w gwneud yn Aberaeron | Croeso Cymru

**Aberteifi**
Pethau i'w gwneud yn Aberteifi | Croeso Cymru

**Tyddewi**
Pum peth i'w gwneud yn Nhyddewi | Croeso Cymru
Croeso | Eglwys Gadeiriol Tyddewi
Palas Esgob Tyddewi | Cadw



Goleudy'r Parlwr Du, Talacre



Canol Tref y Fenni, Sir Fynwy



Arforgampau, Harbwr Porthclais, Bae Santes Non, Sir Benfro

**Aberdaugleddau**
Aberdaugleddau: Gwestai, Atyniadau a Llefydd i Aros

**Penfro**
48 Awr ym Mhenfro - Ymweld â Sir Benfro

**Dinbych-y-pysgod**
Pethau i'w gwneud yn Ninbych-y-Pysgod | Harbwr Dinbych-y-Pysgod | Croeso Cymru

**Saundersfoot**
Saundersfoot: Gwestai, Safleoedd Gwersylla, Bwytai a Pharciau Carafanau

**Cydweli**
Castell Cydweli | Cadw

**Talacharn**
Talacharn - Darganfod Sir Gâr

**Y Mwmbwls**
Y 5 Peth Gorau i'w Gwneud yn y Mwmbwls – Croeso Bae Abertawe

**Abertawe**
Pethau i'w gweld a'u gwneud yn Abertawe | Croeso Cymru

**Caerdydd**
Pethau i'w gwneud yng Nghaerdydd • Dod o hyd i'r Llefydd Gorau i Ymweld â nhw yng Nghaerdydd

**Abaty Tyndyrn**
Abaty Tyndyrn | Cadw



Aberogwr, Ogwr, De Cymru



Beicio ar Lwybr yr Arfordir yn Blackpill, y Mwmbwls



Harbwr Porthclais, Bae Santes Non, Sir Benfro

# Llwybr Arfordir Sir Benfro

**Aberteifi**
Pethau i'w gwneud yn Aberteifi | Croeso Cymru

**Tyddewi**
Pum peth i'w gwneud yn Nhyddewi | Croeso Cymru
Croeso | Eglwys Gadeiriol Tyddewi
Palas Esgob Tyddewi | Cadw

**Aberdaugleddau**
Aberdaugleddau: Gwestai, Atyniadau a Llefydd i Aros

**Penfro**
48 Awr ym Mhenfro - Ymweld â Sir Benfro

**Dinbych-y-pysgod**
Pethau i'w gwneud yn Ninbych-y-Pysgod | Harbwr Dinbych-y-Pysgod | Croeso Cymru

**Saundersfoot**
Saundersfoot: Gwestai, Safleoedd Gwersylla, Bwytai a Pharciau Carafanau



Tyddewi, Sir Benfro



Gwylio Dolffiniaid, Tripiau Cychod Ynys Dewi, Sir Benfro



Llwybr Arfordir y Mileniwm, Llanelli

# Croesi traeth yw byw

Pa bynnag adeg o'r flwyddyn yr ydych yn dod â phobl i Gymru, mae gennym rai o'r traethau tywodlyd gorau yn Ewrop iddynt eu mwynhau, boed hynny ar gyfer trochfa yn heulwen yr haf neu daith gerdded yn yr hydref.

O gildraethau diarffordd i draethau prysur ger siopau a lleoliadau adloniant, nid yw cerddwyr ar Lwybr Arfordir Cymru a Llwybr Arfordir Sir Benfro byth yn bell o un.

**Dyma ddetholiad o'r traethau teuluol gorau yng Nghymru:**

Gwyliau traeth teuluol yng Nghymru | Traethau gorau | Croeso Cymru

**Mae rhai o'r traethau mwyaf trawiadol yng ngofal yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol:**

Y traethau gorau yng Nghymru | Ymddiriedolaeth Genedlaethol

**Mae gan bawb eu rhestr eu hunain o'r mannau gorau – ac nid oes llawer gwell na'r un hwn gan Rough Guides**

21 most beautiful beaches in Wales | Rough Guides

# Ble i siopa

## Un o atyniadau mawr cerdded y pedwar Llwybr yw eich bod yn pasio drwy neu'n agos at rai o'r trefi marchnad deniadol ac unigryw sydd i'w cael ledled Cymru. Dyma sampl yn unig o'r trysorau sydd i'w cael:

- Cyrchfan glan môr Fictoraidd hyfryd Llandudno gyda'i siopau annibynnol a'i arcêd siopa Fictoraidd
- Mae Aberaeron, sydd wedi cadw ei chymeriad Sioraidd gyda thai hardd wedi'u paentio'n lliwgar, yn cynnig siopau annibynnol mewn lleoliad hyfryd ar lan yr harbwr
- Siopa ar hyd y promenâd yn y Mwmbwls, y tu allan i Abertawe, gyda'i gymysgedd eclectig o siopau a lleoliad atmosfferig yng nghylch syfrdanol Bae Abertawe
- Y Gelli Gandryll ar gyfer llyfrau – wrth gwrs – ond llawer, llawer, mwy hefyd, a'r cyfan mewn strydoedd swynol, traddodiadol
- Ewch i siopa ger yr afon yn Llangollen gyda'i hamrywiaeth o boutiques ffasiwn, gemwaith a siopau anrhegion, crefftau o safon a siopau llyfrau
- Trefyclo gyda'i siopau traddodiadol, orielau celf a chrefftau, a digon o luniaeth
- Machynlleth lle mae'r farchnad dydd Mercher wythnosol a'r ffair chwemisol yn dal yn boblogaidd iawn er eu bod yn dyddio'n ôl i Siarter Frenhinol a gyhoeddwyd ym 1291

Bydd gwneud y trefi hyn fannau gorffwys ar eich teithiau yn ychwanegu cyfoeth at unrhyw wyliau, yn enwedig y cyfleoedd ar gyfer ychydig o therapi prynu ar strydoedd mawr sydd wedi cadw llawer o'u swyn traddodiadol a'u manwerthwyr annibynnol.

Mae'r dolenni isod yn arddangos y gorau o fanwerthu mewn trefi ar hyd y gwahanol lwybrau i'ch helpu i ddylunio taith sy'n cynnig y cyfle perffaith i'ch cwsmeriaid ymlacio a gorffwys rhwng diwrnod o gerdded brwd.



Y Gelli Gandryll, Powys

## Llwybr Clawdd Offa

**Cas-gwent**
Siopa - Cyngor Tref Cas-gwent

**Trefynwy**
Trefynwy | Tref farchnad yn Nyffryn Gwy a man geni Harri V.

**Y Gelli Gandryll**
visithay

**Trefyclo**
Busnesau yn Nhrefyclo

**Trefaldwyn**
Siopa • Ymweld â Threfaldwyn

**Llangollen**
Siopa yn Llangollen

**Prestatyn**
Siopa ym Mhrestatyn

# Llwybr Glyndŵr

**Y Trallwng**
Siopa | Visit Welshpool – Ewch i Y Trallwng

**Machynlleth**
Machynlleth | Tref | Machynlleth | Powys

**Llanidloes**
Llani Lleol - Llanidloes canolbarth Cymru y DU

**Trefyclo**
Busnesau yn Nhrefyclo

# Llwybr Arfordir Cymru

**Llandudno**
Llandudno | Canllaw i Landudno

**Caernarfon**
Siopau Caernarfon Gwynedd

**Porthmadog**
Siopa ym Mhorthmadog

**Aberystwyth**
Canllaw i Aberystwyth | Canol y Dref a Diwylliant | Croeso Cymru

**Aberaeron**
Canllaw Aberaeron a Gwybodaeth i Dwristiaid Bae Ceredigion

**Aberteifi**
Siopa | Visit Cardigan

**Marina Aberdaugleddau**
Siopau, Bwytai a Phethau i'w Gwneud yn Aberdaugleddau, Sir Benfro

**Penfro**
Siop | VisitPembroke.com | 'Birthplace of a dynasty'

**Dinbych-y-pysgod**
Croeso i Ddinbych-y-pysgod - Profiad Dinbych-y-pysgod

**Saundersfoot**
Siopa - Visit Saundersfoot – Siambr Dwristiaeth Saundersfoot

**Talacharn**
36 Awr yn Nhalacharn - Darganfod Sir Gâr

**Y Mwmbwls**
Siopa yn y Mwmbwls

**Abertawe**
Siopa - Canol Dinas Abertawe

**Caerdydd**
Siopa yng Nghaerdydd • Croeso Caerdydd

# Llwybr Arfordir Sir Benfro

**Aberteifi**
Siopa | Visit Cardigan

**Marina Aberdaugleddau**
Siopau, Bwytai a Phethau i'w Gwneud yn Aberdaugleddau, Sir Benfro

**Penfro**
Siop | VisitPembroke.com | 'Birthplace of a dynasty'

**Dinbych-y-pysgod**
Croeso i Ddinbych-y-pysgod - Profiad Dinbych-y-pysgod

**Saundersfoot**
Siopa - Visit Saundersfoot – Siambr Dwristiaeth Saundersfoot

# Ble i fwyta ac yfed

Mae Cymru wedi'i bendithio â digonedd o gynhwysion ffres a'r cynhyrchwyr bwyd a diod gorau sy'n ymhyfrydu mewn gwneud y gorau ohonynt.

Nid oes unrhyw ymweliad yma'n gyflawn i'ch cwsmeriaid os nad ydynt yn profi'r hyn sydd ar gael eu hunain fel rhan o'u profiad.

Yn ogystal â'r ffefrynnau traddodiadol Cymreig fel cacennau cri, bara brith, bara lawr a chawl, mae cynhwysion o bantri Cymru yn cyfrannu at rai o'r bwydydd gorau yn ein bwytai gorau, ac at fwydydd a diodydd crefftus a weinir mewn caffis a bariau.

Mae'r prydau arbennig ddylai fod ar ben y rhestr yn cynnwys:

- Brownis Gower Cottage – y gorau gewch chi yn unrhyw le
- Hufen iâ mêl yn yr Hive, Aberaeron
- Cawsiau gan Caws Teifi, ger Aberteifi - y gwneuthurwyr caws mwyaf arobryn ym Mhrydain
- Seidr arobryn Cymraeg, Gwynt Y Ddraig
- Gwinoedd syfrdanol gan Ancre Hill Estates y tu allan i Drefynwy
- Gins wedi'u gwneud â llaw gan Gower Gin Company

Mae'r dolenni yma yn cynnig ffyrdd cyfleus i chi i nodi rhai o'r lleoedd bwyta a phrofiadau bwyd a diod gorau y gallwch eu cynnwys yn eich teithiau ar gyfer eich cleientiaid.

Bwyd a Diod Cymru

## Llwybr Clawdd Offa

**Cas-gwent a Threfynwy**
Bwyd a Diod yn Sir Fynwy

**Y Gelli Gandryll**
visithay

**Trefyclo**
Ble i Fwyta – Visit Knighton

**Trefaldwyn**
Bwyta ac Yfed yn Sir Drefaldwyn • Ymweld â Threfaldwyn

**Llangollen**
Ble i fwyta ac yfed yn Llangollen

## Llwybr Glyndŵr

**Y Trallwng a Machynlleth**
Bwyta ac Yfed yng Nghanolbarth Cymru

**Llanidloes**
Dod o hyd i rywbeth i'w fwyta neu ei yfed - Llanidloes canolbarth Cymru y DU

**Trefyclo**
Ble i Fwyta – Visit Knighton



Cei Newydd a Chwmtydu, Ceredigion

# Llwybr Arfordir Cymru

Bwyd a Diod | Groups North Wales

**Llandudno**
Bwyd a Diod yn Llandudno, Bwytai, Caffis, Bariau, Tafarndai, Ciniawa

**Biwmares**
Bwyd a Diod

**Caernarfon**
Bwyta yng Nghaernarfon Gwynedd

**Aberystwyth**
Bwyd a Diod | Aberystwyth ar y Blaen

**Aberteifi**
Caffis Tafarndai a Bwytai | Bae Ceredigion

**Tyddewi**
Ein Hoff Lefydd i fwyta yn Sir Benfro – St Davids Escapes

**Marina Aberdaugleddau**
Y Newyddion Diweddaraf gan y Caffis a'r Bwytai yn Aberdaugleddau

**Penfro**
Bwytai a Llefydd i Fwyta yn Sir Benfro - Bwyd a Diod yng Nghymru

**Dinbych-y-pysgod**
Bwyd a Diod yn Ninbych-y-pysgod gan Tenby Visitor Guide

**Saundersfoot**
Bwyd a Diod - Visit Saundersfoot – Siambr Dwristiaeth Saundersfoot

**Talacharn**
36 Awr yn Nhalacharn - Darganfod Sir Gâr

**Y Mwmbwls**
Llefydd i fwyta allan yn Abertawe, y Mwmbwls a Gŵyr

**Abertawe**
Llefydd i fwyta allan yn Abertawe, y Mwmbwls a Gŵyr

**Porthcawl**
Cinio | Profiad Porthcawl | Twristiaeth Porthcawl

**Caerdydd**
Llefydd i Fwyta ac Yfed yng Nghaerdydd • Croeso Caerdydd

**Cil-y-coed**
Bwyd a Diod yn Sir Fynwy



Llwybr Arfordir Sir Benfro

# Llwybr Arfordir Sir Benfro

**Aberteifi**
Caffis Tafarndai a Bwytai | Bae Ceredigion

**Tyddewi**
Ein Hoff Lefydd i fwyta yn Sir Benfro – St Davids Escapes

**Marina Aberdaugleddau**
Y Newyddion Diweddaraf gan y Caffis a’r Bwytai yn Aberdaugleddau

**Penfro**
Bwytai a Llefydd i Fwyta yn Sir Benfro - Bwyd a Diod yng Nghymru

**Dinbych-y-pysgod**
Bwyd a Diod yn Ninbych-y-pysgod gan Tenby Visitor Guide

**Saundersfoot**
Bwyd a Diod - Visit Saundersfoot – Siambr Dwristiaeth Saundersfoot

# Dolenni defnyddiol

Y Diwydiant Teithio | Croeso Cymru
Prif dudalen we Croeso Cymru ar gyfer y diwydiant teithio

Grwpiau | Croeso Cymru
Syniadau ar gyfer gweithgareddau ac amserlenni teithio i grwpiau

assets.wales.com
Llyfrgell Cymru ar gyfer delweddau a fideos

Llety Gwyliau | Bythynnod Gwyliau'r DU | Croeso Cymru
Cronfeydd data Croeso Cymru lle gallwch chwilio am lety, atyniadau, pethau i'w gwneud a llefydd i fynd iddynt

Llwybr Arfordir Cymru / Ap Llwybr Arfordir Cymru
Ap Llwybr Arfordir Cymru y gallwch ei lawrlwytho

Hafan | Cadw (llyw.cymru)
Sefydliad sy'n rhan o Lywodraeth Cymru sy'n gofalu am safleoedd hanesyddol Cymru



Llanilltud Fawr, De Cymru